Gwobrwyon Cynlluniau Teithio Cymru

Cynlluniau Gwobrwyo a Chydnabod

Consortiwm Cludiant Integredig De-Orllewin Cymru
South-West Wales Integrated Transport Consortium
SWWITCH

TraCC
Trafnidiaeth Canolbarth Cymru
Mid Wales Transportation

Taith

Sewta
Moving People Yn Symud Pobl

Ariennir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Funded by
Welsh Assembly Government

in partnership with

www.TravelineCymru.info
0871 200 22 33 Gwybodaeth teithio didrafferth
Trouble free travel info

YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT

MISC1056

Cyflwyniad

Rhoi cydnabyddiaeth i arferion gorau a rhagoriaeth ym maes cynlluniau teithio a wna Gwobrwyon Cynlluniau Teithio Cymru. Mae'r cynllun yn agored i holl sefydliadau'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol a datblygiadau newydd lle gwelir yn glir ymrwymiad parhaus i gynlluniau teithio.

Eglura'r llyfryn hwn feini prawf y gwahanol wobrwyon, sut i wneud cais a'r cymorth sydd ar gael i'ch helpu drwy'r broses. O'r gorfforaeth ryngwladol fwyaf i'r busnes lleol lleiaf bydd y gefnogaeth a dderbyniwch wedi'i theilwra i'ch gofynion chi.

Gall cynlluniau teithio hefyd ddarparu'r dystiolaeth sydd ei hangen ar gyfer gwobrwyon a safonau eraill, megis:

- Y Safon Iechyd Gorfforaethol – e.e. Teithio byw a rhannu ceir
- Buddsoddwyr mewn Pobl – Cyfathrebu gyda gweithwyr
- Y Ddraig Werdd/ ISO140001 – Effaith ar yr amgylchedd
- BSI PAS500:2008 Manyleb genedlaethol cynlluniau teithio

Er bod y llyfryn hwn yn rhoi cyfarwyddyd sylfaenol ar yr hyn y dylid ei gynnwys, cysylltwch â'ch Cydlynydd Cynlluniau Teithio rhanbarthol a phartneriaid i'ch cynorthwyo drwy'r broses.

Mae Gwobrwyon Cynlluniau Teithio yn cydweddu â Manyleb Genedlaethol Cynlluniau Teithio yn y Gweithle (PAS 500:2008) sy'n hwyluso'r broses ar gyfer y sefydliadau hynny sydd â diddordeb mewn gwneud cais am y safon genedlaethol.

Beth yw Cynllun Teithio

Cyfres o fesurau sy'n gwella'r dewisiadau teithio a darparu mynediad mwy cynaliadwy i bawb yw cynllun teithio. Dylai gynnwys gwahanol fentrau ar gyfer lwyddiant wedi'u teilwra ar gyfer y sefydliad megis rhannu ceir, hyrwyddo trafnidiaeth gyhoeddus, beicio, cerdded a chefnogi arferion gweithio amgen. Mae rhoi Cynllun Teithio ar waith yn llesol i bawb, megis:

Y gweithiwr/y gweithiwr posib – dull o fyw mwy egnïol, mwy o ddewisiadau teithio cynaliadwy sy'n llai dibynnol ar berchenogaeth car, arbed costau.

Y cyflogwr – tystiolaeth fod annog teithio byw yn arwain at lai o salwch ymhlith staff, llai o staff yn gadael oherwydd bod gwell mynediad i'r safle, llai o broblemau parcio i staff, cynnydd yn ysgogiad staff yn sgil gwell cyfathrebu dwyffordd.

Y Gymuned Leol -
Y potensial i leihau tagfeydd ar y safle ac o'i amgylch, lleihau problemau parcio ar y safle a'r strydoedd cyfagos, a lleihau sŵn a llygredd aer o gwmpas y safle.

Yn unol â phob cynllun a luniwyd wedi ystyriaeth drwyadl mae'r Cynllun Teithio ar ffurf dogfen ysgrifenedig sy'n amlygu'r canlynol:

- '**Pam**'- neu'r nodau a'r amcanion diffiniedig. Gallai'r enghreifftiau gynnwys materion amgylcheddol, arbed costau, problemau parcio ceir, rhan o gais cynllunio, modd o leihau salwch, a llawer mwy. Dyma'r adran o'r ddogfen sy'n amlygu'r problemau y dymunwch fynd i'r afael â hwy a'r budd posib o weithredu cynllun teithio.

- '**Pwy**'- y bobl y byddwch eu hangen i fod yn rhan o'r broses i sicrhau llwyddiant. Er enghraifft cefnogaeth uwch reolwyr, ynghyd ag enw unigolyn a ddynodwyd yn berchennog parhaus y cynllun teithio y cyfeirir ato fel arfer fel y Swyddog Cynllun Teithio. Dylid sefydlu grŵp llywio cynllun teithio i gefnogi'r rôl hon ac i oruchwylio'r modd y cyflawnir nodau ac amcanion y cynllun teithio. Mae pob lefel o wobr yn galw am dystiolaeth o gyfathrebu effeithiol ynghylcy Cynllun Teithio.

- '**Sut**'- bydd cynllunio'r camau sy'n rhaid eu cymryd wrth gyflawni cynllun teithio yn sicrhau ei effeithiolrwydd. Mae'r dull 8 cam o lunio cynllun teithio wedi bod yn llwyddiannus iawn ac mae gweithdai rhyngweithiol ar gael ar gyfer y rheiny sy'n dymuno ymarfer sgiliau mewn amgylchedd damcaniaethol. Cysylltwch â'ch Cydlynydd Cynlluniau Teithio Rhanbarthol ynghylch y sesiynau hyfforddi undydd hyn.

- '**Pryd**'- rhaid paratoi amserlen ar gyfer camau gweithredu a thargedau pob cynllun teithio cynaliadwy. Y ffordd hawsaf o sicrhau y bodlonir y gofynion hyn yw trwy ysgrifennu cynllun gweithredu yn enwi'r unigolion sy'n gyfrifol am fodloni amserlenni y cytunwyd arnynt. Fel arfer llunnir cynlluniau gweithredu ar ôl casglu'r holl wybodaeth sydd ei hangen e.e. arolygon safleoedd, arolygon staff, ac ati. Dylai'r Cynllun Gweithredu ddangos lleihad yn nifer y teithiau gan gerbydau yn cynnwys y gyrrwr yn unig a chynnydd mewn teithiau ac arferion gwaith cynaliadwy.

- '**Beth**'- mae angen ymrwymiad i gyrraedd pob lefel ac i gydnabod hynny mae 4 lefel o wobr i'w hennill sef, efydd, arian, aur a phlatinwm. Caiff pob Cynllun Teithio a gyflwynir i'r Cydlynwyr Cynlluniau Teithio Rhanbarthol ei fesur yn ôl y meini prawf ar gyfer y wobr honno.

Meini Prawf y Gwobrwyon

Cyn gwneud cais am lefel **Efydd** y wobr rhaid i'r sefydliad fod wedi cyflawni'r canlynol:

1) Sicrhau cefnogaeth uwch reolwr a chyflwyno tystiolaeth o hynny.

2) Dynodi unigolyn penodol sydd fel arfer yn cael ei alw'n Swyddog Cynllun Teithio i yrru ymlaen fesurau'r Cynllun Teithio, a bod yn brif gyswllt ar gyfer cynlluniau teithio yn y sefydliad. Dylid sefydlu Grŵp Llywio Cynllun Teithio i gefnogi'r rôl hon mewn sefydliadau mawr.

3) Sefydlu nodau ac amcanion clir a diffiniedig ar gyfer y problemau sydd i'w datrys, a'r budd a ddaw yn sgil y cynllun teithio.

4) Cynnal archwiliad safle yn cynnwys gwybodaeth am fynediad i'r safle ar gyfer pob math o drafnidiaeth yn cynnwys darpariaeth ar gyfer parcio beiciau, cawodydd a mannu sychu, parcio i'r anabl, systemau rheoli meysydd parcio ar waith, gwybodaeth i ymwelwyr, a'r patrymau teithio ar adegau prysur. Dylid hefyd cynnwys arferion gweithio amgen megis darpariaeth cyfleusterau fideo-gynadledda a thelegynadledda a pholisi gweithio gartref.

5) Cynnal arolwg teithio sylfaenol i asesu sut mae staff yn teithio ar hyn o bryd, sut y byddent yn dymuno teithio, a'r rhwystrau sy'n atal dulliau amgen mwy cynaliadwy.

6) Archwiliad o'r arolygon safle a theithio er clustnodi'r atebion posib i'r problemau presennol ar y safle.

7) Llunio Cynllun Gweithredu yn amlinellu'r amcanion a osodwyd a thargedau CAMPUS. Dylai'r cynllun gynnwys mesurau y byddai'n rhaid eu gweithredu i gyflawni'r targedau a osodwyd. Byddai'n rhaid cael arian penodol wedi'i glustnodi yn y cynllun ar gyfer rhai mesurau megis gwella parcio i feiciau, lleiniau ceir a rennir, cawodydd, ac ati. Byddai'r Cynllun Gweithredu hefyd yn cynnwys dyddiadau ar gyfer gwaith arolwg a monitro yn y dyfodol.

8) Rhaid hysbysu'r staff am ganlyniadau arolygon a'r Cynllun Gweithredu sy'n deillio o'r canlyniadau hynny.

Cyn gwneud cais am lefel **Arian** y wobr byddai'r sefydliad wedi cyflawni'r canlynol:

1) Eisoes yn dal lefel gwobr Efydd ers 1 flwyddyn

2) Ailadrodd arolwg llawn o'r staff gan anelu at gael 30% o leiaf ohonynt i ymateb.

3) Dangos tystiolaeth o fonitro ac adborth ar y cynnydd yn erbyn yr amcanion a osodwyd yn y Cynllun Gweithredu.

4) Parhau i gymryd camau i gyflawni targedau cyfredol, datblygu ymhellach fentrau teithio a chytuno ar dargedau ar gyfer y dyfodol.

5) Cynhyrchu Cynllun Gweithredu diwygiedig gyda dyddiadau ar gyfer gwaith arolwg a monitro yn y dyfodol. Dylai'r Cynllun Gweithredu hefyd ddangos lleihad yn nifer y teithiau gan gerbydau yn cynnwys y gyrrwr yn unig a chynnydd mewn teithiau ac arferion gwaith cynaliadwy.

6) Tystiolaeth yr hysbyswyd y staff am y cynllun teithio a ddiweddarwyd.

Cyn gwneud cais am lefel **Aur** y wobr byddai'r sefydliad wedi cyflawni'r canlynol:

1) Eisoes yn dal Gwobr lefel Arian ers 1 flwyddyn o leiaf

2) Ailadrodd arolwg llawn o'r staff gan anelu at gael 50% ohonynt i ymateb.

3) Dangos tystiolaeth o fonitro ac adborth ar y cynnydd yn erbyn yr amcanion a osodwyd yn y Cynllun Gweithredu.

4) Parhau i gymryd camau i gyflawni targedau cyfredol, datblygu ymhellach fentrau teithio a chytuno ar dargedau ar gyfer y dyfodol

5) Cynhyrchu Cynllun Gweithredu diwygiedig gyda dyddiadau ar gyfer gwaith arolwg a monitro yn y dyfodol. Dylai'r Cynllun Gweithredu hefyd ddangos lleihad yn nifer y teithiau gan gerbydau yn cynnwys y gyrrwr yn unig a chynnydd mewn teithiau ac arferion gwaith cynaliadwy.

6) Tystiolaeth yr hysbyswyd y staff am y cynllun teithio a ddiweddarwyd.

Cyn gwneud cais am lefel **Platinwm** y wobr byddai'r sefydliad wedi cyflawni'r canlynol:

1) Eisoes yn dal Gwobr lefel Aur ers 1 flwyddyn o leiaf neu wedi ennill gwobr Platinwm sydd bron â dod i ben.

2) Ailadrodd yr arolwg staff

3) Dangos tystiolaeth o fonitro ac adborth ar y cynnydd yn erbyn yr amcanion a osodwyd yn y Cynllun Gweithredu.

4) Parhau i gymryd camau i gyflawni targedau cyfredol, datblygu ymhellach fentrau teithio a chytuno ar dargedau ar gyfer y dyfodol.

5) Cynhyrchu Cynllun Gweithredu diwygiedig gyda dyddiadau ar gyfer gwaith arolwg a monitro yn y dyfodol. Dylai'r Cynllun Gweithredu hefyd ddangos lleihad yn nifer y teithiau gan gerbydau yn cynnwys y gyrrwr yn unig a chynnydd mewn teithiau ac arferion gwaith cynaliadwy.

6) Tystiolaeth yr hysbyswyd y staff am y cynllun teithio a ddiweddarwyd.

Cyn cyflwyno'r Cynllun Teithio i gael ei achredu dylai ymgeiswyr ddefnyddio'r rhestr gyfeirio hwylus ar y dudalen nesaf i sicrhau fod pob pwynt wedi'i gynnwys yn y cynllun teithio.

Bydd angen cefnogaeth partneriaid ar gyfer sawl maes o'r Cynllun Teithio i sicrhau ei fod yn effeithiol ac yn cyflawni'r canlyniadau. Mae manylion cyswllt partneriaid wedi'u nodi yng nghefn y llyfryn hwn neu gallwch gael eu henwau gan y Cydlynydd Cynlluniau Teithio Rhanbarthol.

Dylai ymgeiswyr anfon eu Cynllun Teithio ynghyd â'r rhestr gyfeirio at y Cydlynydd Cynlluniau Teithio Rhanbarthol. Hysbysir yr ymgeiswyr am y penderfyniad ynghylch lefel y wobr cyn pen 28 diwrnod.

Dylid nodi fodd bynnag bod yn rhaid i bob sefydliad ennill bob gwobr yn ei thro gan ddechrau gyda'r Wobr Efydd.

Wrth anfon cais am wobrwyon Arian, Aur neu Blatinwm nid oes raid i ymgeiswyr anfon copi llawn o'r Cynllun Teithio sy'n bodoli eisoes. Ar y lefelau hyn am adroddiad cynnydd a chynllun gweithredu y gofynnir ynghyd â thystiolaeth gefnogol o leihad yn nifer y teithiau gan gerbydau yn cynnwys y gyrrwr yn unig. Dylai'r ceisiadau am bob lefel o wobr gynnwys tystiolaeth yr hysbyswyd yr holl saff am y Cynllun Teithio a'i fesurau.

Rhestr Gyfeirio cyn Cyflwyno Cynllun Teithio

Canllaw yn unig yw'r rhestr isod gan y bydd angen gwybodaeth ychwanegol ar gyfer rhai safleoedd oherwydd effaith y safle ar yr ardal o gwmpas.

Tystiolaeth i'w Chynnwys ar gyfer Yn ofynnol ar gyfer lefelau E=Efydd, A=Arian, Ar=Aur, P= Platinwm	(wedi'i gynnwys) **Tic**
Cefnogaeth Uwch Reolwr (E,A,Ar,P)	
Swyddog Cynllun Teithio wedi'i glustnodi a'i enwi (E,A,Ar,P)	
Polisi Trafnidiaeth Cyfredol (E,A,Ar,P) Disgrifiad o'r safle (E)	
Arolwg Safle + yn cynnwys mapiau, lleiniau parcio, stondinau beic, cawodydd, ac ati (E)	
Polisi Rheolaeth y Fflyd * (E)	
Gwybodaeth am y Rhwydwaith Trafnidiaeth Leol/Gwybodaeth am fysiau a threnau wedi'i darparu (E,A,Ar,P)	
Tystiolaeth o Grŵp Llywio /Gweithgor (E,A,Ar,P)	
Gwybodaeth Cynllun Teithio blaenorol ** (A,Ar,P)	
Data Arolwg Teithio Gweithwyr/Ymwelwyr *** (E,A,Ar,P)	
Canlyniadau Arolwg Teithio Gweithwyr / Ymwelwyr *** (E,A,Ar,P)	
Ffynonellau gwybodaeth am deithio a sut yr hysbyswyd defnyddwyr amdanynt e.e. Pecynnau croeso, hysbysfyrddau, ac ati (E,A,Ar,P)	
Pecyn o Fesurau arfaethedig (E,A,Ar,P)	
Targedau ar gyfer teithiau Gweithwyr/Ymwelwyr (E,A,Ar,P)	
Targedau i leihau $C0^2$ (lle bo'n briodol) (E,A,Ar,P)	
Targedau Teithio Byw (E,A,Ar,P)	
Clustnodwyd cyllid ar gyfer mesurau (adnoddau/ariannol) (E,A,Ar,P)	
Cynllun Gweithredu a'r dyddiadau a'r cyfrifoldebau wedi'u clustnodi (E,A,Ar,P)	
Monitro ac adolygiad yn cynnwys y weithdrefn a'r dyddiad cyflwyno (ar ôl 1 flwyddyn fel arfer) (A,Ar,P)	

* Lle mae cerbydau fflyd, cerbydau hurio, ceir cronfa neu telir fesul milltir
** Yn gymwys yn unig pan fo ar gael
*** Yn gymwys yn unig ar gyfer safleoedd presennol neu lle gwyddys pwy yw'r defnyddwyr a chesglir y data cyn bo'r safle'n weithredol

Lefelau Gwobrwyon Cynlluniau Teithio



Ffig 1 Lefelau Gwobrwyon Cynlluniau Teithio

Enwau Cyswllt Cynlluniau Teithio Rhanbarthol

Gall sefydliad sy'n dymuno gwneud cais am wobr Cynlluniau Teithio Cymru gysylltu â'r canlynol i gael cymorth yn ystod y broses.

Er mwyn sicrhau bod sefydliadau yn cysylltu â'r Cydlynydd Cynlluniau Teithio cywir, gofynnir i chi edrych ar restr y siroedd ym mhob rhanbarth.

Rhanbarth SWWITCH - Os yw eich sefydliad yn Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Abertawe neu Gastell-nedd Port Talbot.

Rhanbarth Trac - Os yw eich sefydliad yng Ngwynedd (Meirionnydd), Ceredigion, Powys.

Rhanbarth TAITH - Os yw eich sefydliad yng Nghonwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Ynys Môn, Wrecsam, Gwynedd (Arfon a Dwyfor)

Rhanbarth SEWTA - Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Torfaen, Bro Morgannwg.

Enw Cyswllt	Rhanbarth	Rhif Ffôn	Cyfeiriad e-bost
Jayne Cornelius	SWWITCH	Ffôn: 01792 637644 Symudol: 07796 275711	jayne.cornelius@swansea.gov.uk
Nicola Thomas	SWWITCH	Ffôn: 01792 637644 Symudol: 07796 275691	nicola.thomas3@swansea.gov.uk
Meleri Edwards	TraCC	Ffôn: 01970 633432 Symudol: 07843 575653	meleri.edwards@powys.gov.uk
Jessica Pritchard	Taith	Ffôn: 01352 704544	jessica.pritchard@taith.gov.uk
Deborah Stux	SEWTA	Ffôn: 01633 463434 Symudol: 07826875790 Ffacs: 01633 463399	deborah.stux@capita.co.uk
Nicola Davies	SEWTA	Ffôn: 01633 463367 Symudol: 07826 875791	nicola.davies@capita.co.uk

Astudiaethau Achos

HSBC, Parc Anturiaeth, Abertawe – Gwobr Lefel Aur

Dyfarnwyd y wobr aur i HSBC yn 2010 oherwydd eu hymrwymiad i yrru ymlaen eu cynllun teithio:

- Cyflwyno cynllun aberthu cyflog er prynu beiciau
- Hyfforddiant cynllun aberthu cyflog i 40 rheolwr fel y gellid rhoi atebion cywir i gwestiynau gan weithwyr
- Cynyddu'r defnydd o alwadau cynadledda er lleihau milltiroedd busnes diangen
- Sefydlu a hyrwyddo cynllun parcio a theithio am ddim i staff (fe'i defnyddir gan fwy na 100 o weithwyr yn ddyddiol) a gweithio gyda busnesau eraill i'w hannog ymuno â'r cynllun
- Cofrestru gyda chynllun 10.10, menter i leihau carbon sy'n cynnwys hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy. Hefyd, trefnu cystadlaethau mewnol. Mae HSBC wedi ymrwymo i leihau 10% ar deithiau a wnaed y flwyddyn flaenorol
- Sefydlu hysbysfyrddau teithio
- Mae hyrwyddo trefniadau rhannu ceir yn rhan fawr o'u cynllun a chaiff pob gweithiwr newydd ei gyflwyno i'r cyfryw drefniadau. Caiff y rhanwyr ceir eu monitor yn rheolaidd
- Bu 61 o weithwyr yn cymryd rhan mewn digwyddiadau beicio yn ystod mis Ebrill a mis Mehefin 2010
- Gweithio gyda Sustrans i ystyried sefydlu cynllun cronfa feiciau a rhaglen teithio byw

Yn fynychwyr rheolaidd o fforwm deithio SNITI yn y Parc Anturiaeth mae HSBC yn cefnogi'r sefydliadau eraill sy'n aelodau o'r fforwm.

Pencadlys Heddlu Dyfed Powys Caerfyrddin – Gwobr Lefel Arian

Enillodd Dyfed Powys wobr arian am yr hyn y mae wedi'i gyflawni hyd yma. Mae'n gweithio'n galed iawn i yrru ymlaen fesurau ei gynllun teithio ac yn sicrhau bod yr holl staff yn cael gwybodaeth lawn am yr hyn y mae'r Cynllun Teithio yn ei olygu iddo a sut y mae'n effeithio arno.

Yn 2010 rhoddwyd polisi parcio hollol newydd ar waith i ymdrin â'r problemau parcio ar y safle. Cam dewr ond angenrheidiol iawn. Yn rhan o'r cynllun ymdriniwyd â'r canlynol.

- Lluniwyd map o'r holl leiniau parcio sydd ar gael. Mae pob ardal wedi'i dynodi yn lliw arbennig a chaiff y rheiny sy'n rhannu ceir hawlenni parcio gwahanol i'r rheiny sy'n defnyddio ceir ar eu pen eu hunain. Gwarantir lle i'r rheiny sy'n rhannu ceir ond heblaw am gerbydau brys a deiliaid bathodynnau glas, y cyntaf i'r felin yw hi i bawb arall.

- Mae'r lleiniau i ranwyr ceir yn boblogaidd iawn gyda'r staff ac o'r herwydd mae'r ffens sydd rhwng yr ardaloedd yn un symudol fel y gellir yn y dyfodol greu mwy o le i geir a rennir ar draul y lle i geir a ddefnyddir gan yrrwr yn unig.
- Mae diwrnodau cofrestru i rannu ceir wedi bod yn llwyddiannus iawn ac mae tîm Cynlluniau Teithio SWWITCH wedi bod wrth law i ateb unrhyw gwestiynau neu broblemau gan weithwyr
- Sefydlwyd cynllun parcio a theithio ar gyfer pob hyfforddai a gweithiwr sy'n teithio o'r gorllewin
- Mae Heddlu Dyfed Powys wrthi'n gweithio gyda gweithwyr eraill yn yr ardal, drwy fforwm Sir Gaerfyrddin, ar fentrau cynlluniau teithio. Mae wedi cefnogi nifer o aelodau'r fforwm megis y cyngor lleol, y bwrdd iechyd lleol a cholegau drwy roi adborth ynghylch yr arferion gorau mewn perthynas â chynllun teithio
- Caiff pob dull teithio cynaliadwy ei gefnogi a'i annog a'i hyrwyddo mewn digwyddiadau rheolaidd gydol y flwyddyn.

Asiantaeth yr Amgylchedd – y De-orllewin

Maes Newydd, Llandarsi (swyddfa ardal) – Gwobr Lefel Platinwm

Er bod pob swyddfa sy'n rhan o Asiantaeth yr Amgylchedd yn y De-orllewin wedi ymwneud â chynlluniau teithio mae safle Maes Newydd ychydig ar y blaen i'r gweddill. Rhoddwyd cydnabyddiaeth i hynny ym mis Medi 2010 pan ddyfarnwyd gwobr lefel platinwm iddo am ei waith parhaus ym mhob maes o gynlluniau teithio.

Mae'r Asiantaeth yn gweithredu cynllun beic sy'n rhoi benthyciad di-log i alluogi'r gweithwyr i brynu beiciau at eu defnydd eu hunain. Mae hefyd yn cymryd rhan yn y cynllun beicio cenedlaethol sy'n caniatáu staff i brynu beiciau yn ddi-dreth ar gyfer cymudo i'r gwaith, drwy gynllun aberthu cyflog.

Yn ystod 2009 -10 beiciwyd cyfanswm o 816 o filltiroedd busnes gan weithwyr Ardal De-orllewin Cymru. O fis Ebrill i fis Awst 2010, beiciodd y gweithwyr gyfanswm o 286 o filltiroedd busnes. Mae dwy gronfa feiciau ym Maes Newydd a ddefnyddir ar gyfer teithiau byr yn ymwneud â gwaith.

Gwnaed ymdrech ar y cyd gan 17 o bobl o swyddfa Maes Newydd i adael eu ceir gartref a beicio i'r gwaith ar gyfer wythnos 'Beicio i'r Gwaith' (21 i 25 Mehefin). Beiciodd staff Maes Newydd 871 o filltiroedd yn ystod yr wythnos.

Mae ym Maes Newydd Grŵp Defnyddwyr Beiciau. Katie Fawcett a Hamish Osborn yw prif drefnwyr y grŵp egnïol hwn ac mae ei aelodaeth ar dwf. Gosododd aelodau'r Grŵp darged heriol iawn i'w hunain yn 2010 sef cymudo 10,000 o filltiroedd ar feic. Derbyniodd 27 o bobl yr her a llwyddwyd i chwalu'r targed yn deilchion gan arbed bron i 1,500 kg o CO2 a defnyddio cyfanswm o 400,000 o galorïau rhyngddynt.

Rhai o'r cyfranogwyr o swyddfa Llandarsi

Roedd y gweithgareddau eraill a gyfrannodd at ennill y wobr blatinwm yn cynnwys:

- Mae ganddynt bellach ddau le parcio penodol ar gyfer rhanwyr ceir ym maes parcio Maes Newydd. Caiff y rhain eu monitro'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio at ddibenion rhannu ceir

- Yn rhifyn mis Gorffennaf 2010 o Carbon Copy, llythyr newyddion electronig mewnol ar reolaeth yr amgylchedd, roeddent yn hyrwyddo cyfleuster Parcio a Rhannu Dinas a Sir Abertawe yn Felindre

- Hyrwyddo wythnos rhannu ceir (4 - 8 Hydref 2010) a chynllun rhannu ceir Asiantaeth yr Amgylchedd (rhifyn mis Medi 2010 o Carbon Copy).

- Drwy fonitro gweithredol a'r llythyr newyddion Carbon Copy (rhifyn mis Mai 2010) aethant ati i hyrwyddo gyrru effeithlon er lleihau'r tanwydd a ddefnyddir

Tystebau

"Mae Cynllunio Teithiau a chael Cynllun Teithio llwyddiannus yn hanfodol i nodau a strategaethau hirdymor DVLA i leihau allyriadau carbon a grëir gan gymudo."
Richard Swift DVLA

"Cynigiwn nifer o ddewisiadau i helpu ein gweithwyr i deithio yn ôl ac ymlaen i'r gwaith. Rydym yn cynnal rhaglen rhannu ceir 'Admiral yn unig', yn cymryd rhan yn y cynllun 'beicio i'r gwaith' ac yn cynnig benthyciadau ar gyfer tocynnau teithio rhad ar drafnidiaeth gyhoeddus.

"Gan fod costau trafnidiaeth yn gyffredinol ar gynnydd mae'n bwysig ein bod fel cwmni yn gallu cynnig dewisiadau gwahanol a bod yn gefnogol mewn modd sy'n iach, yn gost effeithiol i bawb ac yn parchu'r amgylchedd."

Ceri Assiratti, Admiral Group People Services Manager

Atodiadau

BSI PAS 500:2008 Manylebau cenedlaethol ar gyfer cynlluniau teithio

http://shop.bsigroup.com

Pecyn Cymorth Teithio Byw Sustrans

http://www.sustrans.org.uk/what-we-do/active-travel

Manylion cyswllt Sustrans:

www.sustrans.org.uk

Traveline Cymru
www.traveline-cymru.info

Manylion cyswllt partneriaid:

Bydd sefydliadau sy'n datblygu a pharhau gwaith ar Gynlluniau Teithio yn cysylltu â nifer o bartneriaid fydd yn eu helpu i weithredu'r Cynllun Teithio. Gallai'r rhain fod yn sefydliadau eraill yn yr ardal sydd hefyd yn gweithredu Cynlluniau Teithio, yn gwmnïau bysiau a threnau lleol, a llawer iawn mwy.

Ar dderbyn cais gall y Cydlynydd Cynlluniau Teithio Rhanbarthol yn yr ardal, ynghyd â'r partneriaid Sustrans a Traveline Cymru, sicrhau eich bod yn cael y gorau o broses y Cynllun Teithio drwy ddarparu cymorth am ddim ar ffurf Hyfforddiant Hyrwyddwr Teithio Call a digwyddiadau eraill i godi ymwybyddiaeth.

Teithio Byw

Cysylltwch â'r isod i gael cefnogaeth partneriaid mewn digwyddiadau:
georgina.harper@sustrans.org.uk

Trafnidiaeth Gyhoeddus

Cysylltwch â'r isod i gael cefnogaeth partneriaid mewn digwyddiadau:
jfoxall@travelinecymru.info

Lefelau Gwobrwyon Cynlluniau Teithio – Gwybodaeth Ychwanegol

Mae gwobrwyon cynlluniau teithio yn cydnabod rhagoriaeth ar wahanol lefelau cyrhaeddiad ym maes cynlluniau teithio. Gellir rhoi gwobr i fusnesau, sefydliadau, ysgolion neu grwpiau cymunedol.

Efydd

Rhoddir gwobrwyon Efydd i gydnabod bod sefydliad wedi cwblhau Cynllun Teithio i safon dderbyniol. Rhaid i'r cynllun gynnwys y canlynol:

- Canlyniadau arolygon staff, myfyrwyr neu gymunedau i ddeall anghenion teithio a'r problemau sy'n codi
- Gosod targedau mesuradwy a realistig ar gyfer newid arferion teithio, newid moddau, damweiniau, ac ati, sydd i'w cyflawni dros gyfnod penodol o amser
- Amlinellu gwelliannau neu fesurau a weithredir i helpu gweithwyr, myfyrwyr neu ddefnyddwyr eraill i wneud gwell dewisiadau o ran teithio
- Dangos ymrwymiad gan fusnes, ysgol neu arweinwyr cymunedol a thystiolaeth o'u hymwneud â'r Cynllun ar bob lefel yn y sefydliad

Rhaid cyflwyno copi o'r cynllun teithio a'i anfon at y Cydlynydd Cynlluniau Teithio Rhanbarthol priodol ar gyfer ei werthuso i ennill y wobr hon.

Arian

Rhoddir gwobrwyon Arian i gydnabod ymrwymiad parhaus i gynlluniau teithio.

Cyflwynir tystiolaeth o gyflawniadau mesuradwy sy'n cael eu monitro'n dda yn erbyn y targedau a osodwyd ers cynhyrchu'r cynllun teithio cychwynnol.

Dangosir ymrwymiad i wella dewisiadau teithio a thrafnidiaeth yn y dyfodol, amlinellir cynlluniau monitro a gosodir targedau ar gyfer gwelliant parhaus. Dangosir hyn drwy gyfrwng cynllun gweithredu.

Dylid dangos ymrwymiad swyddogion uwch i gynlluniau teithio gan gynnwys, lle y bo'n briodol, gysylltiadau a wnaed sy'n dangos effaith y cynlluniau teithio ar gynlluniau busnes strategol.

Rhaid cyflwyno copi o'r cynllun teithio a'i anfon at y Cydlynydd Cynlluniau Teithio Rhanbarthol priodol ar gyfer ei werthuso i ennill y wobr hon.

Aur

Mae gwobrwyon lefel Aur yn cydnabod rhagoriaeth ac arferion gorau rhanbarthol wrth ddatblygu cynlluniau teithio.

Mae enillwyr gwobrwyon Aur yn arddangos blaengaredd, brwdfrydedd, angerdd ac ymrwymiad parhaus i gynlluniau teithio.

Cyflwynir tystiolaeth o gyflawniadau mesuradwy sy'n cael eu monitro'n dda yn erbyn y targedau a osodwyd ers cynhyrchu'r cynllun teithio cychwynnol.

Dangosir ymrwymiad i wella dewisiadau teithio a thrafnidiaeth yn y dyfodol, amlinellir cynlluniau monitro a gosodir targedau ar gyfer gwelliant parhaus. Dangosir hyn drwy gyfrwng 'cynllun gweithredu'.

Dylid dangos ymrwymiad swyddogion uwch i gynlluniau teithio gan gynnwys, lle y bo'n briodol, gysylltiadau a wnaed sy'n dangos effaith y cynlluniau teithio ar gynlluniau busnes strategol.

Ar y lefel hon disgwylir i gyfranogwyr allu dangos dulliau rhagorol o fonitro gwelliant parhaus a pharodrwydd i arddangos eu cyflawniadau i'w cymheiriaid proffesiynol ac ar draws ffiniau sefydliadol.

Rhaid cyflyno copi o'r cynllun teithio a'i anfon at y Cydlynydd Cynlluniau Teithio Rhanbarthol priodol ar gyfer ei werthuso i ennill y wobr hon.

Platinwm

Mae'r wobr Platinwm yn wahanol i weddill y gwobrwyon, gan mai hi yw'r unig un y mae'n rhaid gwneud cais amdani yn flynyddol. Rhoddir y wobr hon i'r sefydliadau hynny sy'n dangos gwelliant parhaus flwyddyn ar ôl blwyddyn ac ymrwymiad parhaus i gynlluniau teithio.

Ni ellir gwneud cais am y lefel Platinwm oni bai fod y wobr Aur eisoes wedi cael ei hennill.